



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Datganiad Llywodraethiant Comisiynydd y Gymraeg

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

1	Datganiad Llywodraethiant Comisiynydd y Gymraeg Rôl y Comisiynydd	1 1
2	Rheoleiddiwr	2
3	Atebolrwydd y Comisiynydd	2
4	Cyflog y Comisiynydd	4
5	Y Panel Cyngori	4
6	Pwyllgor Archwilio a Risg	4
7	Swyddogion y Comisiynydd Dirprwy Gomisiynydd	4 5
8	Rheolaeth Weithredol y Comisiynydd	5

# 1 Datganiad Llywodraethiant Comisiynydd y Gymraeg

- 1.1 Mae'r Datganiad hwn yn nodi ar gyfer swyddogion a rhan-ddeiliaid Comisiynydd y Gymraeg ar ba sail y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei sefydlu; y dull a ddefnyddir i'w lywodraethu a'i reoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

## Rôl y Comisiynydd

- 1.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) yn gosod allan dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd, sef:

“Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.”

- 1.3 Mae'n ofynnol felly i'r Comisiynydd weithio tuag at wireddu'r nod hwn o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- 1.4 Yn ôl y Mesur, mae'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau yn cynnwys gweithio tuag at gynyddu:
- Defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a
  - Cyfleoedd eraill i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg
- 1.5 Hefyd yn ôl y Mesur, wrth arfer ei swyddogaethau mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw:
- i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
  - i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
  - i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
  - i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 1.6 Felly mae cynyddu cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol, a thrwy'r gyfundrefn safonau yn rhan ganolog o waith y Comisiynydd. Rhaid rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg a'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn ei waith. Mae'r ddwy egwyddor ddilynol yn eang. Nid ydynt wedi eu cyfyngu i waith rheoleiddio'r Comisiynydd yn unig, a rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddyletswyddau gorfodol ac wrth ddefnyddio dulliau perswadio fel ei gilydd.
- 1.7 Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yn unol â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

- 1.8 Mae a wnelo rhan o gylch gwaith y Comisiynydd ag ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Yn y cyd-destun hwn, nod y Comisiynydd yw darparu gwasanaeth gwrthrychol, uchel ei ansawdd i ymdrin â chwynion a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.

## 2 Rheoleiddiwr

- 2.1 Mae holl swyddogaethau rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yn weithredol ac yn cwmpasu gosod a gorfodi safonau y Gymraeg.
- 2.2 Mae [Polisi Gorfodi'r Comisiynydd](#) yn ddogfen statudol a luniwyd yn unol ag adran 108 y Mesur. Mae'r ddogfen yn rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 y Mesur. Derbyniodd y Polisi Gorfodi gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar 26 Mawrth 2015 yn unol ag adran 108(4) y Mesur.
- 2.3 Mae [Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd](#), a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2016, yn egluro sut mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal y gwaith o reoleiddio safonau'r Gymraeg yn fwy cyffredinol.

### Atebolrwydd mewn cysylltiad â dyletswyddau rheoleiddio

- 2.4 Sefydlwyd Tribiwnlys y Gymraeg ym mis Ebrill 2015 o dan adran 120 y Mesur.
- 2.5 Yn unol ag adran 58 y Mesur mae gan bersonau perthnasol hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys") yn gofyn i'r Tribiwnlys ddyfarnu a yw'r gofyniad, i gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.
- 2.6 Yn unol ag adran 95 y Mesur gall sefydliad apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd o fethiant i gydymffurfio â safon ac yn erbyn camau gorfodi sydd yn eu barn nhw'n afresymol neu'n anghymesur.
- 2.7 Os yw'r Comisiynydd yn casglu na wnaeth sefydliad fethu â chydymffurfio â safon, yna yn unol ag adran 99 y Mesur gall achwynydd apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd.
- 2.8 Yn unol ag adran 103 o'r Mesur, os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i gŵyn mae gan yr achwynydd yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Mae hefyd modd gofyn am adolygiad os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i gŵyn ond, am resymau penodol, yn rhoi'r gorau i'r ymchwiliad.

## 3 Atebolrwydd y Comisiynydd

- 3.1 Penodir y Comisiynydd gan Brif Weinidog Cymru. Mae'r swydd yn annibynnol ar lywodraeth. Penodir y Comisiynydd am gyfnod penodol sengl o 7 mlynedd. Gellir

ond diswyddo'r Comisiynydd cyn y terfyn amser hwnnw yn sgil penderfyniad gan Brif Weinidog Cymru, fel a nodir yn y Mesur.

- 3.2 Mae'r Comisiynydd yn adrodd ar ei holl weithgareddau drwy Adroddiad Blynyddol statudol a amlinellir yn adran 18 y Mesur. Yn ogystal, bydd Cyfrifon Blynyddol yn cael eu cynhyrchu o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r Trysorlys; mae'r rhain yn ddarostyngedig i'w harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon eu cyhoeddi. Mae adran 5 y Mesur hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf yn ystod 2016.
- 3.3 Mae'r Comisiynydd yn adrodd yn flynyddol ar gyflawni swyddogaethau cyffredinol, ar safonau'r gwasanaeth a ddarperir i achwynwyr, ac ar y defnydd o arian cyhoeddus, ac ar ddigonolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Gall gyhoeddi adroddiadau hefyd, o bryd i'w gilydd, ar enghreifftiau unigol a/neu systemig o gamweinyddu. Rhaid i Weinidogion Cymru dalu sylw dyledus i adroddiadau o'r fath.
- 3.4 Mae cyfrifoldebau'r Comisiynydd yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Tŷ Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ Cyffredin.
- 3.5 Y Comisiynydd yn unig sy'n gyfrifol ac yn atebol am gynnal a gweinyddu'r holl waith a wneir gan yr holl swyddogion ac ar gyfer y penderfyniadau a wneir ym mhob achos. Gall penderfyniadau'r Comisiynydd fod yn destun adolygiad barnwrol drwy wneud cais i'r Llysoedd; ceir hefyd Weithdrefn Gwyno benodol sydd wedi ei llunio dan adran 14 y Mesur. Mae'r berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru (a chyda sefydliadau perthnasol eraill) wedi ei nodi mewn memoranda cyd-ddealltwriaeth.
- 3.6 Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (12)(6) Rhaid i'r Comisiynydd gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer—

- (a) nifer y staff y caniateir eu penodi,
- (b) telerau ac amodau gwasanaeth y staff, ac
- (c) taliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o is-adrannau (3) i (5).

Mae is-adrannau (3) i (5) fel a ganlyn:

(3) Caiff y Comisiynydd dalu tâl cydnabyddiaeth i aelodau o staff y Comisiynydd.

(4) Caiff y Comisiynydd dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth,

ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i aelodau o staff y Comisiynydd.

(5) Caiff y Comisiynydd dalu—

(a) pensiynau i bersonau a fu'n aelodau o staff y Comisiynydd, neu mewn

cysylltiad â hwy, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau a fu'n aelodau o staff y Comisiynydd, neu mewn cysylltiad â hwy.

## 4 Cyflog y Comisiynydd

- 4.1 Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn cymryd i ystyriaeth argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwchswyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

## 5 Y Panel Cynghori

- 5.1 Mae adran 23 y Mesur yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi'r Panel Cynghori. Mae Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012 Rhif 59 (Cy.13)) (Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012) yn gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch y Panel Cynghori.
- 5.2 Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn atebol i'r Panel. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw fater. Mae Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno ar gyfer y Panel.

## 6 Pwyllgor Archwilio a Risg

- 6.1 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Bwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cael ei recriwtio drwy hysbyseb allanol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol sy'n cwmpasu holl feysydd gwaith y Comisiynydd, gan gynnwys systemau ariannol ac anariannol. Y Comisiynydd a'r Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb dros reoli risg. Mae Uwch Swyddog yn gweithredu fel Rheolwr Risg; a chyfrifoldeb y Rheolwr Risg yw cydlynu'r gwaith o adolygu, asesu a diweddarau y Gofrestr Risg.

## 7 Swyddogion y Comisiynydd

- 7.1 Cefnogir y Comisiynydd gan swyddogion; gellir dirprwyo awdurdod i'r rhain. Maent yn cael eu cyflogi gan ac yn gweithio i'r Comisiynydd, sydd yn gorfforaeth undyn, sydd wedi ei ariannu gan Weinidogion Cymru. Y Comisiynydd ei hun yw ei Swyddog Cyfrifyddu o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r Trysorlys. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb y gweithgareddau i gyd a'r adnoddau a ddefnyddir, ac ar gyfer systemau rheoli ariannol a mewnol.

## Dirprwy Gomisiynydd

- 7.2 Yn unol ag Adrannau 12 a 13 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi person yn Ddirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i'r Comisiynydd yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais arbennig Comisiynydd y Gymraeg.

# 8 Rheolaeth Weithredol y Comisiynydd

## Tîm Rheoli

- 8.1 Mae Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd, ac yn cynnwys y Cyfarwyddwyr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhan ddeiliaid eraill. Mae cylch gorchwyl wedi'i gytuno ar gyfer y Tîm Rheoli.
- 8.2 Mae'r Tîm Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n gyfrifol am arwain a rheoli gweithgarwch ar draws y sefydliad. Yn y pen draw, dyma'r brif fforwm (wedi ei chefnogi'n briodol gan grwpiau eraill) ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllunio strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad. Mae rôl y Tîm Rheoli o ran penderfyniadau yn cydnabod, ar adegau, y bydd rhai materion y mae'r Comisiynydd ei hun yn penderfynu arnynt.
- 8.3 Bydd aelodau'r Tîm Rheoli hefyd yn cyfarfod yn ffurfiol â swyddogion eraill, yn gorfforaethol ac yn eu timoedd, i lywio ac arwain ar feysydd strategol bwysig o'r gwaith.
- 8.4 Mae gan aelodau'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb penodol i weithredu os ydynt yn credu bod y Comisiynydd yn gweithredu'n anghyfreithlon neu'n groes i'w ddyletswyddau. Bwriad y cyfrifoldeb hwn yw rhoi sicrwydd eglur a thryloyw i Weinidogion Cymru a'r cyhoedd y caiff safonau uchel y Swyddogaeth hon eu diogelu.
- 8.5 Mae gan y Comisiynydd ddau Gyfarwyddwr Strategol sy'n gyfrifol am dimoedd a swyddogaethau gwahanol. Mae'r ddau Gyfarwyddwr a'r Comisiynydd yn aelodau o'r Tîm Rheoli.
- 8.6 Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn rheoli perfformiad i'r holl swyddogion. Mae'r drefn hon yn cynnwys cynllun datblygu blynyddol i bob unigolyn.
- 8.7 Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ac yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Rheolaeth a Gweithdrefnau Ariannol.

## Panel Ymchwilio a Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg

- 8.8 Mae prosesau statudol i'w dilyn wrth i'r Comisiynydd fynd ati i arfer ei



swyddogaethau Gorfodi. Y Panel Ymchwilio a Gorfodi yw'r fforwm gwneud penderfyniadau yn y cyswllt hwn. Y Comisiynydd ei hun sy'n gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad a holl rychwant y gwaith gorfodi hwnnw. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn gwneud penderfyniadau yn absenoldeb y Comisiynydd.

## Strwythurau Adrodd

8.9 Mae strwythur llywodraethu ffurfiol y Comisiynydd yn cael ei gefnogi gan strwythurau adrodd a sefydlwyd er mwyn rheoli a darparu sicrwydd ar feysydd penodol o bwys i'r Comisiynydd. Ymhlith y rhain mae:

- Adroddiadau rheolaidd a drafftiau o ddogfennau i'r Tîm Rheoli ar gyfrifoldebau'r Comisiynydd yng nghyd-destun:
  - Monitro cynnydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol
  - Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol
  - Cyllidebau blynnyddol
  - Adolygiad Pum Mlynedd
  - Polisi Risg a Chofrestr Risg
  - Polisi Gorfodi
  - Datganiadau o farn, cyngor neu sylw
  - Argymhellion o unrhyw fath
  - Gwaith Ymchwil
  - Adroddiad chwarterol ar feysydd gwaith
  - Cyfarfodydd adrodd cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol

## Ymgynghori

8.10 Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Undeb (Undebau Llafur) ar bolisiau a gweithdrefnau mewnol fydd yn effeithio ar y swyddogion.

## Adolygu'r Datganiad Llywodraethiant

8.11 Bydd y Datganiad Llywodraethiant yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Dyddiad: Ebrill 2019